# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD DROS MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER, 17 CHWEFROR 2021 AM 10:30AM

YN BRESENNOL:

Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff a Diogelu'r Cyhoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), S. Morgan (Economi a Menter), L. Phipps (Tai a Lleoedd), J. Ridgewell (Amgylchedd ac Isadeiledd), E. Stenner (Perfformiad a Gwasanaethau i Gwsmeriaid) ac R. Whiting (Dysgu a Chyflawniad).

Ynghyd a:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro), M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau'r Pwyllgor / Gyrrwr), A. Dredge (Swyddog Cymorth y Prif Weithredwr) ac C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod drwy wefan y Cyngor - Cliciwch yma i'w weld. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

### 2. DATGANIAD O FUDDIANT

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

## 3. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET - I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a oedd ar yr amserlen rhwng 17 Chwefror 2021 i'r 24 Chwefror 2021. Atgoffwyd yr Aelodau mai dogfen weithredol yw Blaenraglen Waith y Cabinet ac felly'n gallu newid.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, fe'i cynigiwyd ac eiliwyd bod y Blaenraglen Waith yn cael ei nodi. Drwy ddangos dwylo cytunwyd hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

## 4. CYNIGION CYLLIDEB AR GYFER 2021/22 A RHAGOLWG ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gynigion cyllideb 2021/22 cyn i'r Cyngor benderfynu'n derfynol ar 24 Chwefror 2021 a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC).

Atgoffwyd y Cabinet bod y cynnydd hwnnw o 3.1% yn y Setliad Cyllid Dros Dro ynghyd â'r cynnydd arfaethedig o 3.9% o ran Treth y Cyngor yn golygu na fydd yn ofynnol nodi unrhyw arbedion newydd er mwyn mantoli'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. At hynny, bydd y cynigion yn yr adroddiad hefyd yn cynnal y ddarpariaeth gwasanaeth ar draws y Cyngor, yn ariannu'r galw cynyddol a phwysau gwasanaeth mewn meysydd allweddol fel Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, yn galluogi buddsoddiadau newydd sy'n canolbwyntio ar y gymuned mewn meysydd fel Gofalu am Gaerffili a'r Gronfa Grymuso Cymunedol arfaethedig, darparu'r gallu a'r gwytnwch sy'n ofynnol i yrru Rhaglen Trawsnewid Tîm Caerffili a'r Cynllun Llunio Lleoedd ymlaen a mynd i'r afael â materion etifeddiaeth mewn perthynas â diffygion incwm mewn nifer o wasanaethau.

Nododd y Cabinet na fydd manylion Setliad Ariannol Terfynol Llywodraeth Leol 2021/22 yn cael eu cyhoeddi tan 2 Mawrth 2021, ond rhagwelir na fydd hyn yn amrywio'n sylweddol o'r sefyllfa a nodir yn y Setliad Dros Dro.

Mae'r Cyngor ar daith o ran adfer, gwella a thrawsnewid a bydd y cynigion a nodir yn yr adroddiad yn darparu llwyfan cadarn i symud ymlaen gyda'r cynlluniau uchelgeisiol.

Nododd yr Aelod Cabinet nad yw'r Setliad Ariannol yn cwmpasu goblygiadau ariannol y pandemig coronafeirws parhaus, o ran y costau ychwanegol sy'n cael eu hysgwyddo a cholledion incwm, ill dau. Bydd y rhain yn parhau i gael eu hariannu trwy Grantiau Llywodraeth Cymru a bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n agos wrth i ni symud i'r flwyddyn ariannol newydd.

Cyfeiriwyd y Cabinet at Adran 5.4 o'r adroddiad ac Atodiad 2 a oedd yn rhoi manylion y symudiad rhagamcanol ar Falansau'r Gronfa Gyffredinol. Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod gwarged Treth y Cyngor wedi'i sianelu drwy'r Gronfa Gyffredinol bob blwyddyn er mwyn cefnogi'r gyllideb sylfaenol yn y flwyddyn ariannol ddilynol. Mewn blynyddoedd arferol, amcangyfrifir bod y gwarged hwn tua £1.050 miliwn ond mae effaith andwyol wedi bod ar gasglu Treth y Cyngor yn ystod 2020/21 oherwydd COVID-19. Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu rhywfaint o arian i liniaru hyn, ni fyddai'n ddoeth ar hyn o bryd tybio y bydd gwarged Treth y Cyngor yn cael ei gyflawni yn y flwyddyn gyfredol er mwyn cefnogi'r gyllideb ar gyfer 2021/22. Am un flwyddyn yn unig, argymhellir felly y dylai'r £1.050m sydd ei angen i gefnogi cyllideb 2021/22 gael ei ariannu drwy alw ar y Gronfa Gyffredinol.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi, ar ôl hefyd caniatáu i'r rhagamcaniad gymryd balansau gwaith o danwariant disgwyliedig ar gyllideb refeniw 2020/21, mai'r balans rhagamcanol ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yw £11.232 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli 3.05% o Gyllideb Refeniw Net

arfaethedig 2021/22 sydd fymryn yn uwch na'r lefel isaf o 3% a argymhellir gan y Swyddog Adran 151.

Nodwyd er bod y cynnydd o 3.1% yn y Setliad Ariannol i'w groesawu, mae'r sefyllfa ariannu ar gyfer Llywodraeth Leol yn y dyfodol yn debygol o fod yn heriol oherwydd effaith ariannol ddigynsail COVID-19 a'r pwysau a fydd hynny’n rhoi ar arian cyhoeddus am flynyddoedd i ddod.

Cyfeiriwyd y Cabinet at Adran 5.7 yr adroddiad a oedd yn manylu ar y rhagolygon ariannol ar gyfer y cyfnod o bedair blynedd 2022/23 i 2025/26 ac roedd yn amlwg y bydd angen arbedion sylweddol wrth symud ymlaen. Mae’r Cyngor mewn sefyllfa dda i ddelio â'r her hon a'r Rhaglen Drawsnewid fydd y sbardun allweddol i sicrhau bod gwydnwch ariannol yn cael ei gynnal yn y dyfodol.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog a'r Aelod Cabinet am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad yn helaeth a gofynnwyd am ragor o wybodaeth o ran Treth y Cyngor ar gyfer eiddo Band D ym Mwrdeistref Sirol Caerffili o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill a nifer yr aelwydydd yn y Fwrdeistref Sirol ym Mandiau A i C. Eglurodd yr Aelod Cabinet mai dim ond Cyngor Sir Penfro sydd â chyfradd is o Dreth y Cyngor Band D yng Nghymru ar hyn o bryd, sy'n golygu bod pob Awdurdod cyfagos yn codi mwy na Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar hyn o bryd. Yn ogystal, nodwyd bod 76.2% o'r eiddo yn y Fwrdeistref Sirol yn dod o fewn Bandiau A i C.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor a nifer yr aelwydydd sy'n elwa ar hyn o bryd. Eglurodd yr Aelod Cabinet fod 16,800 o aelwydydd yn derbyn cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor, gyda 10,584 ohonynt yn cael gostyngiad o 100% yn eu Treth y Cyngor.

Trafododd y Cabinet oblygiadau COVID-19 ar drefniadau cyllideb yn y dyfodol ac ailadroddwyd y bydd costau ychwanegol a cholledion incwm y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r pandemig yn parhau i gael eu hariannu drwy Grantiau Llywodraeth Cymru yn 2021/22, er bod y symiau a ddyrennir ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU yn llawer llai nag yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Atgoffwyd y Cabinet hefyd o'r tybiaethau allweddol a ddefnyddiwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig, a'r gofyniad arbedion dangosol o tua £21.1 miliwn ar gyfer y cyfnod pedair blynedd rhwng 2022/23 a 2025/26.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol ar y system bleidleisio electronig.

PENDERFYNWYD ac argymhellwyd i'r Cyngor, am y rhesymau a geir yn Adroddiad y Swyddog: -

i) Bod y cynigion cyllideb refeniw ar gyfer 2021/22 o £ 368.227 miliwn, fel y manylir trwy gydol yr adroddiad a'u crynhoi yn Atodiad 1, yn cael eu cytuno;

ii) Bod y cynnig i benodi pedwar Rheolwr Prosiect tymor penodol am gyfnod cychwynnol o 2 flynedd i gefnogi cyflwyno Rhaglen Drawsnewid a Chynllun Llunio Lleoedd y Cyngor, gyda chyfanswm y costau o £368,000 yn cael eu hariannu o'r gronfa wrth gefn o £1.8 miliwn a gymeradwywyd yn flaenorol, yn cael ei gytuno gan y Cyngor er mwyn cefnogi cyflwyno'r CATC (paragraff 5.3.37);

iii) Bod y symudiadau ar y Gronfa Gyffredinol yn Atodiad 2 yn cael ei nodi, a chytuno ar y cynnig y dylid defnyddio dim ond £1.050 miliwn o falans y Gronfa Gyffredinol am flwyddyn er mwyn cefnogi cyllideb 2021/22 oherwydd nad oes gwarged Treth y Cyngor tybiedig yn y flwyddyn ariannol 2020/21;

iv) Bod y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2019/20 i 2021/22 fel y'i nodir yn Atodiad 5, yn cael ei gytuno;

v) Bod y cynnig i gynyddu Treth y Cyngor gan 3.9% ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 yn cael ei gytuno er mwyn sicrhau bod cyllideb gytbwys yn cael ei chyflawni (gan osod Band D Treth y Cyngor ar £1,230.57);

vi) Bod y gofyniad arbedion posibl dangosol o £20.7 miliwn ar gyfer y cyfnod pedair blynedd 2022/23 i 2025/26, yn cael ei nodi.

Daeth y cyfarfod i ben am 11am.

Wedi'i gymeradwyo a'i llofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2021.

______________________

CADEIRYDD